

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

# LLAIS TENANTIAID AR NEWID YN YR HINSAWDD A DATGARBONEIDDIO CARTREFI

EBRILL 2021

WWW.TPAS.CYMRU

pobl

NODDWYR LLAIS TENANTIAID

# BRÎFF – LLAIS TENANTIAID AR NEWID YN YR HINSAWDD A DATGARBONEIDDIO CARTREFI

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio gwybodaeth ac ymwybyddiaeth tenantiaid yng Nghymru, mewn perthynas â'r heriau amgylcheddol. Mae'n ymchwilio i agweddau a chanfyddiadau o'r newid i dechnolegau carbon isel ac ymddygiadau sy'n ymwybodol o garbon yn seiliedig ar grwpiau cymdeithasol-ddemograffig. Mae ein dadansoddiad yn tanlinellu pwysigrwydd creu mwy o ymwybyddiaeth ac addysgu tenantiaid o'r effaith y mae tai yn ei chael ar allyriadau hinsawdd a buddion technolegau newydd. Mae'n pwysleisio gwahanol ganfyddiadau yn seiliedig ar oedran, lefel addysg, statws cyflogaeth a deiliadaeth, tra hefyd yn ystyried y dulliau ymgysylltu wrth weithio gyda thenantiaid i ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru.

## CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

- Cymdeithasau Tai sydd â'r gynrychiolaeth uchaf o denantiaid i fod wedi cwblhau'r arolwg hwn. Mae hyn yn gyson â'n holl arolygon Pwls Tenantiaid blaenorol.
- Roedd tenantiaid sy'n gweithio rhan-amser a'r rhai sydd wedi ymddeol, yn teimlo bod eu biliau ynni yn fwy fforddiadwy na thenantiaid sy'n gweithio llawn amser neu'r rheini sy'n ddi-waith.
- Roedd bron i hanner y tenantiaid yn y sector preifat (49%) yn teimlo bod eu biliau ynni yn anfforddiadwy.
- Roedd bron i hanner y tenantiaid (43%) yn ansicr a oedd eu system wresogi yn gyfeillgar i'r amgylchedd, gydag oedrannau 18-30 yn teimlo'n sylweddol fwy ansicr na grwpiau oedran eraill.
- Roedd bron i ddwy ran o dair (60%) o denantiaid yn teimlo bod newid yn yr hinsawdd wedi cael ei achosi gan weithgaredd dynol, heb unrhyw wahaniaethau sylweddol ar draws deiliadaeth, oedran na lefel addysg.
- Wrth ystyried technoleg newydd mewn cartrefi, roedd 61% o denantiaid yn teimlo mai eu ffynhonnell fwyaf dibynadwy i drosglwyddo'r wybodaeth honno oedd gwneuthurwr y system, ac yna landlord, wedyn cyfoed â phrofiad o'r system. Roedd hyn yn gyson ar draws deiliadaeth.
- Roedd fforddiadwyedd yn gysylltiedig â lefelau uwch o ymddiriedaeth landlordiaid.
- Byddai esboniadau wyneb yn wyneb o dechnoleg newydd gan y gwneuthurwr yn fwyaf ffafriol (47%), ac yna llawlyfrau 'di-jargon' (30%).
- Mae ymddygiadau sy'n ymwybodol o garbon yn gyffredin ymysg tenantiaid ar draws deiliadaeth, gyda rhywfaint o amrywiad yn seiliedig ar oedran a statws cyflogaeth.

  - Mae 88% yn diffodd goleuadau mewn ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio.
  - Mae 65% yn cadw ystafelloedd nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio ar dymheredd oerach.
  - Mae 94% yn cadw deunyddiau ailgylchadwy ar wahân.
  - Mae 64% yn ystyried deunydd yr eitemau maen nhw'n eu prynu

Ebrill 2021
www.tpas.cymru

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri